# Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
# Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

**Colofn: Camau nesaf A**

| **Rhagweld brawddeg sy'n ailadrodd mewn stori gyfarwydd iawn, gan leisio'r gair neu'r sŵn olaf ar adegau** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn stori, rhigwm, neu weddi gyfarwydd iawn, defnyddiwch eich goslef i bwysleisio diwedd llinell neu frawddeg.<br><br>Oedwch cyn dweud y gair olaf er mwyn i'r dysgwr gael ymateb, *e.e. 'Doedd e ddim yn rhy fawr, nac yn rhy fach. Roedd yn . . . [berffaith]'.* | Mae'r dysgwr yn ceisio cwblhau'r frawddeg/llinell drwy leisio, ystumio neu drwy fynegiant lliwgar ar ei wyneb. |

| **Dangos eu bod yn deall iaith lafar (ond yn dibynnu'n helaeth ar gliwiau gweledol ac ar gliwiau eraill o fewn y cyd-destun uniongyrchol)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch yn ofalus ar yr iaith lafar y mae'r dysgwr fel pe bai'n ymateb iddi.<br><br>A yw'r dysgwr yn dal i ymateb:<br>• os ydych yn osgoi cyfeirio'r llygaid neu ddefnyddio ystum neu iaith y corff?<br>• os na all weld y peth neu'r sawl yr ydych yn cyfeirio ato?<br>• os ydych yn defnyddio iaith sy'n wahanol i'r iaith y mae'n ei chlywed yn arferol? | Mae'r dysgwr yn ymateb yn briodol gyda chefnogaeth y cyd-destun, ond yn ei chael hi'n anodd ymateb heb y gefnogaeth honno. |

| **Dangos eu bod yn deall ychydig o eiriau/arwyddion am wrthrychau neu bobl gyfarwydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y dysgwr yn ofalus ym mhob sefyllfa yn yr ysgol a chanfod yr hyn y mae'n ei ddeall mewn amgylcheddau eraill, yn enwedig gartref. | Mae'r dysgwr yn edrych ar unigolyn neu wrthrych penodol pan fydd trafodaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn neu'r gwrthrych hwnnw.<br><br>Mae'r dysgwr yn gwahaniaethu rhwng rhai gwrthrychau neu bobl pan ddefnyddir geiriau/arwyddion. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Defnyddio ychydig o eiriau/arwyddion neu symbolau cyfarwydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Arsylwch y dysgwr yn ofalus ym mhob sefyllfa yn yr ysgol a chanfod hefyd sut y gallai fod yn cyfathrebu mewn amgylcheddau eraill, yn enwedig gartref. | Mae lleisio'r dysgwr ac/neu ei ddefnydd o arwyddion yn ddigon clir fel bod y rhai sy'n adnabod y dysgwr yn dda yn deall bod y synau/arwyddion yn cynrychioli geiriau penodol.<br><br>**a**<br><br>Caiff y gair/geiriau ac/neu'r arwyddion a ddefnyddir gan y dysgwr eu cynhyrchu mewn cyd-destunau priodol.<br><br>**ac/neu**<br><br>Mae'r dysgwr yn rhoi symbol fel arwydd er mwyn cael eitem a ddymunir yn fawr mewn mwy nag un cyd-destun strwythuredig iawn.<br><br>Mae'r dysgwr yn defnyddio cyfanswm (cyfunol) o 10 o wahanol eiriau, arwyddion ac/neu symbolau o leiaf. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

# Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| Defnyddio cyfuniad o ystumiau a dulliau mwy ffurfiol o gyfathrebu (arwyddion/iaith lafar) er mwyn cael sylw, i ddweud 'na' ac i fodloni eu hanghenion | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y dysgwr yn ofalus ym mhob sefyllfa yn yr ysgol a chanfod sut mae'n cyfathrebu mewn amgylcheddau eraill, yn enwedig gartref. | Mae repertoire cyfathrebu'r dysgwr yn cynnwys rhai geiriau neu arwyddion ond yn dal i ddibynnu ar ystumiau, ac ar gyfathrebu â'r corff cyfan. Defnyddir hynny'n aml fel y prif ddull, a lleisio fel dull eilradd.<br><br>Sylwch a yw'r dysgwr yn gwneud y canlynol yn gyson.<br>• Tapio/tynnu oedolyn neu'n troi pen oedolyn i gael ei sylw.<br>• Eistedd i lawr/gwrthod symud i gyfleu 'na'.<br>• Ymestyn at eitemau y mae am eu cael neu'n pwyntio atyn nhw.<br>• Dangos neu'n rhoi eitem i oedolyn fel arwydd.<br>• Dal llaw oedolyn ac yn ei roi ar rywbeth er mwyn gwneud iddo weithio (*e.e. handlen drws*).<br>• Nodio ac/neu'n ysgwyd ei ben i ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol.<br>• Codi llaw i gyfarch rhywun cyfarwydd. |

| Cymryd eu tro mewn sefyllfa lle bydd grŵp yn cymryd tro | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Gall gymryd tro mewn sefyllfa gyfarwydd bob dydd, *e.e. amser cylch*.<br><br>Rhaid i'r sefyllfa fod yn un lle mae modd i'r dysgwr ddod i mewn 'ar y tro anghywir'. | Mae'n disgwyl ei dro ac yn dod i mewn ar amser, naill ai drwy weld bod y plentyn cynt wedi cael ei dro neu drwy aros am arwydd gan yr oedolyn. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

# Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
# Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Copïo gweithredoedd mewn gemau gweithred syml (*e.e. Mae Seimon yn dweud . . .* ), rhoi cynnig ar weithred o ryw fath wrth i'r oedolyn ddefnyddio geiriau yn unig** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Chwaraewch 'Mae Seimon yn dweud . . . ' drwy ddefnyddio amryw o wahanol symudiadau. Pan fydd y dysgwr wedi 'cynhesu' a'ch bod yn siŵr ei fod yn dilyn y symudiadau a’r geiriau, dywedwch ‘Mae Seimon yn dweud [sefwch i fyny/eisteddwch i lawr]’ ond heb unrhyw ystum neu symudiad i gyd-fynd â'r geiriau. | Mae’r dysgwr yn ceisio sefyll/eistedd mewn ymateb i eiriau yn unig. (Cofiwch y gallai fod yn copïo'r dysgwyr eraill.) |

| **Pwyntio/cyfeirio'r llygaid mewn ymateb i 'ble mae'r . . . ?' ar gyfer amrywiaeth o bobl a gwrthrychau cyfarwydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Pan fydd amryw o bobl gyfarwydd iawn yn bresennol, gofynnwch i'r dysgwr ‘<u>Ble</u> mae . . . [e.e. Ioan]?’. (Arwyddwch y gair sydd wedi'i danlinellu.) | Mae’r dysgwr yn pwyntio, yn ystumio neu'n cyfeirio'r llygaid at y sawl a enwir (o blith o leiaf tri o bobl wahanol). |
| Rhowch dri gwrthrych gwahanol ar y tro o fewn cyrraedd rhwydd i'r dysgwr. Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd iawn â'r gwrthrychau. (Os yw'n cyfeirio'r llygaid, sefwch, a rhowch y gwrthrychau mewn man sy'n eich galluogi i wahaniaethu'n rhwydd rhwng dewisiadau'r dysgwr.)<br><br>Gofynnwch i'r dysgwr '<u>Ble</u> mae'r . . . (*e.e. esgid*)?'.<br><br>Pwrpas yr ymarfer hwn yw canfod a yw'r dysgwr yn deall y gair [llafar] am yr eitem darged; felly gwnewch yn siŵr nad ydych yn arwyddo, yn cyfeirio'ch llygad nac yn pwyntio at y gwrthrych targed eich hun. | Mae’r dysgwr yn pwyntio, yn ystumio neu'n cyfeirio'r llygaid at y gwrthrych a enwir (o blith dewis o dri gwrthrych gwahanol). |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| Defnyddio ystum(iau)/gair(geiriau) ychwanegol i gadarnhau'r ystyr pan na ddeallwyd yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Arsylwch sefyllfaoedd lle mae'r dysgwr wedi ceisio cyfathrebu ond lle nad yw'r partner sy'n cyfathrebu ag ef yn deall yr hyn y mae'n ei olygu (neu lle bo'n cymryd arno iddo beidio deall).<br><br>Er enghraifft, pan fydd y dysgwr yn gofyn am eitem benodol, ond yn cael eitem wahanol. | Mae'r dysgwr yn lleisio ac/neu'n ystumio eto, neu'n gwneud hynny gyda mwy o bwyslais.<br><br>Mae'r dysgwr yn edrych yn fwy difrifol ar y partner sy'n cyfathrebu ag ef ac/neu tuag at y gwrthrych neu'r lleoliad y mae'n cyfathrebu yn ei gylch. |

| Pwyntio/lleisio i dynnu sylw rhywun arall at ddigwyddiad neu wrthrych diddorol gerllaw | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar ddysgwr mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd a chydag amrywiaeth o bobl. | Mae'r dysgwr yn sylwi ar ddigwyddiad neu wrthrych ohono ei hun ac yn tynnu sylw rhywun ato. Mae'n pwyntio neu'n cyfeirio'i lygaid yn glir at yr eitem ac yn lleisio. (Gallai'r gair swnio fel gair priodol.)<br><br>Dim ond cyfeirio at y digwyddiad neu'r gwrthrych y mae'r dysgwr wrth gyfathrebu, nid yw'n anelu i'w feddiannu. |

| Pwyntio at eitem a ddymunir (sy'n weladwy ond y tu hwnt i'w gyrraedd), gan leisio | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Rhowch eitemau y gwyddoch fod y dysgwr yn hoff ohonyn nhw mewn mannau lle gellir eu gweld, ond lle na all y dysgwr eu cyrraedd ohono ei hun. | Mae'r dysgwr yn tynnu sylw'r oedolyn yna'n pwyntio neu'n cyfeirio'r llygaid yn glir i ddangos pa eitem yr hoffai ei chael. Wrth wneud hynny, mae'n lleisio. (Gallai'r gair swnio fel gair priodol.) |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| Rhoi symbol/llun i gynrychioli eitem a ddymunir (nid yw'n gwahaniaethu rhwng yr eitem ei hun a'r hyn sy'n ei chynrychioli) | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Yn ofalus, dewiswch eitem y mae'r dysgwr yn hoff iawn ohoni, paratowch symbol neu lun a dilynwch weithdrefnau ‘ PECS’ Cyfnod 1. | Mae’r dysgwr yn cyflwyno'r symbol neu'r llun er mwyn cael yr eitem. (Yn rhoi er mwyn derbyn, ond mae'n bosibl na fydd yn edrych ar y symbol neu'r llun neu'n eu hadnabod.) |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

**Colofn: Camau nesaf B**

| **Lleisio neu pwyso swits i chwarae 'rhan' sydd wedi'i recordio, pan ddaw eu tro mewn 'drama'/cyflwyniad ailadroddus** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Dewiswch ddarn byr i'w lefaru (gair neu frawddeg fer) sy'n ymddangos droeon mewn stori, barddoniaeth neu ddrama. Ar y cyd â'r dysgwr, recordiwch y darn hwn ar switş siarad (*e.e. swits Big Mack neu ddyfais debyg*). Ymarferwch bwyso ar y swits i glywed y darn yn cael ei lefaru. | |
| Pan fydd y dysgwr yn gyfarwydd â'r stori, rhowch arwydd iddo chwarae ei ran. | Mae'r dysgwr yn dweud, ac/neu'n pwyso'r swits i chwarae ei ran ar yr adeg(au) b/priodol.<br><br>Mae'r dysgwr yn rhagweld ei ran ac yn dangos ei fod yn ei deall fel elfen o'r stori. |

| **Cyfathrebu'n bennaf ynghylch gwrthrychau, pobl neu luniau sy'n bresennol ar y pryd, ond hefyd yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn absennol** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Rhowch ffotograffau clir i'r dysgwr o bob aelod mewn grŵp bach o bobl gyfarwydd. | Mae'r dysgwr i ddweud pwy sy'n bresennol drwy ei enwi neu drwy ddewis/bwyntio at un o blith y ffotograffau. |
| Mae'r dysgwr i wylio wrth i un aelod adael y grŵp/fynd allan o'r ystafell. Gofynnwch i'r dysgwr 'Pwy sydd wedi mynd?'.<br><br>(Gellir defnyddio dull tebyg gyda gwrthrychau cyfarwydd a lluniau ohonyn nhw.) | Mae'r dysgwr i ddweud yr enw/ddewis y ffotograff o'r sawl sy'n absennol. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| **Dangos eu bod yn deall hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau; defnyddio is-gyfres o'r rhain mewn cyd-destunau pendant yn bennaf** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y modd y bydd y dysgwr yn cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, a chofnodi ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd o eiriau/arwyddion ac/neu symbolau allweddol (yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle ceir rheolaeth ar awgrymiadau cyd-destunol).<br><br>Mae rhestrau gwirio amrywiol ar gael i gefnogi hyn, *e.e. geirfa 'graidd' Makaton, Living Language (First Words), Derbyshire Language Scheme, ac ati*. | Mae'r dysgwr yn ymateb yn briodol i gyfanswm cyfunol o 50 o eiriau/arwyddion neu symbolau a ddefnyddir gan eraill o leiaf.<br><br>Mae'r dysgwr yn defnyddio cyfanswm cyfunol o 20 gair/arwydd neu symbol gwahanol o leiaf mewn cyd-destunau priodol. |

| **Defnyddio geiriau/arwyddion/symbolau unigol a rhai brawddegau dwy ran, *e.e. i ddweud eu bod am ailadrodd rhywbeth neu am i rywbeth digwydd eto (‘bisged eto’)*** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch a chofnodwch ddull mynegiannol y dysgwr o gyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau. A yw'n dechrau defnyddio rhai cyfuniadau o eiriau?<br><br>Gallai'r cyfuniadau cynharaf fod yn debyg i'r canlynol.<br><br>Cyfarchiad: ‘Helo, Siôn’, ‘Ta ta, Ann’<br>Absenoldeb: 'Mam mynd'<br>Ailadrodd: 'bisged eto' | Mae’r dysgwr yn defnyddio pum brawddeg dwy ran sy'n cynnwys geiriau/arwyddion neu symbolau. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Gwrando/gwylio am ysgogiad mai 'eu tro nhw' yw hi, pan na cheir trefn syml o gymryd tro mewn cylch** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Dewiswch sefyllfa fel gweithgaredd grŵp cerddoriaeth lle bydd y dysgwr yn gyfrifol am 'chwarae rhan'. | Mae'r dysgwr yn gwylio/gwrando i gael gwybod pryd i daro'r drwm, ysgwyd y tambwrîn ac ati. |

| **Gwrando ac ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a wneir gydag ystumiau (*e.e. 'dos/cer i nôl dy gôt'*)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, sylwch a yw'r dysgwr yn ymddangos fel pe bai'n deall brawddegau syml a ddefnyddir ar yr adeg briodol yng nghyd-destun ei fywyd bob dydd, *e.e. 'Dos/cer i nôl dy gôt', 'amser cinio', 'Eistedd yn dy gadair', 'Rho fe yn fanna', 'Cicia'r bêl', 'Cer ar y bws', ac ati*. | Mae'r dysgwr yn rhoi sylw i'r hyn a ddywedir, yn sylwi ar awgrymiadau gweledol ac yn defnyddio'i wybodaeth am y drefn arferol, a thrwy hynny'n ymateb yn gywir i nifer o geisiadau syml yn eu cyd-destun. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| Ymateb yn briodol i geisiadau syml lle mae'n rhaid newid lleoliad gwrthrychau neu eu trosglwyddo i bobl | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Gosodwch eitemau (a) ar y bwrdd yn union o flaen y dysgwr ac eitemau (b) ychydig ymhellach i ffwrdd.<br><br>Eitemau (a): llwy, beiro, allwedd.<br>Eitemau (b): bocs, cwpan. | |
| Gofynnwch i'r dysgwr 'Rho'r allwedd yn y cwpan' neu ddefnyddio cyfuniad arall o ddau air allweddol. Rhowch yr eitemau yn ôl bob tro. | Mae'r dysgwr yn ymateb yn briodol i eiriau yn unig (o hepgor pob ystum a phob awgrym cyd-destunol arall). |
| Drwy ddefnyddio'r eitemau uchod, gofynnwch i'r dysgwr roi eitem neilltuol i unigolyn cyfarwydd penodol (o blith dewis o ddau neu dri). | Mae'r dysgwr yn ymateb yn briodol i eiriau yn unig (o hepgor pob ystum a phob awgrym cyd-destunol arall). |

| Ailadrodd/copïo geiriau ac efelychu patrymau siarad/goslef | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y geiriau y mae'r dysgwr yn eu defnyddio. A ydyn nhw'n 'adleisio' yr hyn y mae wedi clywed eraill yn ei ddweud? | Mae'r dysgwr yn ailadrodd geiriau sy'n amlwg yn eiddo i eraill. |
| Anogwch y dysgwr i edrych ar eich ceg/gwefus/tafod wrth wrando ar y synau a wnewch, gan gynnwys synau ailadroddus (*e.e. 'la, la, la'*), codi neu ostwng y traw, dweud geiriau neilltuol. | Mae'r dysgwr yn ceisio copïo enghraifft leisiol. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Defnyddio geiriau/arwyddion unigol a nifer cynyddol o frawddegau byr (*e.e. 'wedi gorffen', 'ga i ddiod'*) yn bennaf er mwyn mynegi eu dymuniadau neu eu hanghenion ei hunain** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Arsylwch a chofnodiwch ddull y dysgwr o gyfathrebu'n fynegiannol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.<br><br>Dadansoddwch a thrafodwch fel tîm i ba ddiben(ion) y mae'r dysgwr yn defnyddio geiriau/arwyddion/ symbolau?<br><br>Dyma rai o'r dibenion cynnar wrth gyfathrebu:<br>- ceisio sylw<br>- bodloni angen<br>- dweud na<br>- rhyngweithio â rhywun er difyrrwch<br>- manipiwleiddio rhywun arall drwy ymddygiad negyddol<br>- gwneud sylw ynghylch rhywbeth sydd o ddiddordeb wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd ar y cyd. | Mae’r dysgwr yn defnyddio geiriau/arwyddion i amrywiaeth o ddibenion ond yn dal i ganolbwyntio ar fodloni anghenion wrth wneud defnydd digymell o'r geiriau/arwyddion hynny. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| Rhoi symbol/llun er mwyn cael eitem gyfatebol a ddymunir | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Paratowch symbolau neu luniau a dilynwch weithdrefnau ‘ PECS’ Cyfnod 3. | Bydd y dysgwr gan amlaf yn dewis y symbol cywir o blith casgliad o dri symbol neu lun cyfarwydd o leiaf, ac yn ei roi i bartner cyfathrebol gyda'r bwriad o geisio cael yr eitem a ddymunir. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

**Colofn: Camau nesaf C**

| **Ceisio cyfleu pethau/anifeiliaid mewn sefyllfa gyfarwydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn cyd-destun cyfarwydd (fel gwers symud/ddawns) gofynnwch i'r dysgwyr 'fod' yn arth, yn deigr yn llygoden neu'n gi. | Mewn rhyw fodd neu'i gilydd, mae’r dysgwr yn dynwared dau anifail mewn dwy ffordd wahanol.<br><br>Nid oes angen i'r dysgwr gyfleu nodweddion yr anifail dan sylw yn fanwl gywir. Y pwynt yw bod y dysgwr yn ceisio dynwared gwahanol anifeiliaid mewn modd gwahanol. |

| **Ceisio arddangos emosiynau syml, gydag ysgogiad** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Defnyddio storïau cymdeithasol syml gyda lluniau esboniadol, *e.e. ‘Gollyngodd Mair ei doli ac fe dorrodd. Sut oedd Mair yn teimlo?’, ‘Alli di ddangos i mi sut fyddai Mair yn teimlo?’*.<br><br>Gellir defnyddio detholiad o luniau yn ganllaw er mwyn 'dynwared Mair'. | Mae’r dysgwr yn ymateb mewn unrhyw ffordd sy'n arddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o gyflwr emosiynol Mair yn y stori. |

| **Cyfathrebu ynghylch storïau cyfarwydd a chwarae symbolaidd, yn ogystal â phobl, lleoedd a digwyddiadau o'u profiad ehangach** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y modd y bydd y dysgwr yn cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Gofynnwch i'r dysgwr beth mae'n ei wneud a phwy y mae'n ei adnabod y tu allan i'r ysgol. | Wrth gyfathrebu, mae'r dysgwr yn cyfeirio at bobl, lleoedd, amserau a digwyddiadau sydd y tu hwnt i'r hyn sydd o'i amgylch ar y pryd. |
| Gofynnwch i'r dysgwr ddweud rhywbeth am stori. | Gall y dysgwr ddweud rhywbeth am (sefyllfa ddychmygol mewn) stori. |
| Gwrandewch ar ddefnydd y dysgwr o iaith wrth chwarae. | Mae'r dysgwr yn defnyddio geiriau er mwyn chwarae'n symbolaidd (*e.e. ‘doli'n cysgu’, galw ffon yn 'wn'*). |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| Deall a defnyddio 50 neu fwy o eiriau/arwyddion/symbolau | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y modd y bydd y dysgwr yn cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, a chofnodi ei ddealltwriaeth a'i ddefnydd o eiriau/arwyddion ac/neu symbolau allweddol (yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle ceir rheolaeth ar awgrymiadau cyd-destunol). | Gall y dysgwr ddefnyddio cyfanswm cyfunol o 50 o eiriau/arwyddion neu symbolau o leiaf. Bydd yn defnyddio'r rhain mewn modd sy'n briodol i'r cyd-destun. |

| Defnyddio brawddegau dau a thri gair yn rheolaidd er mwyn cyfleu diddordebau, gwneud sylwadau, rhannu gwybodaeth a gofyn cwestiynau | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch a chofnodwch ddull mynegiannol y dysgwr o gyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau. A yw'n ei fynegi ei hun yn fynych mewn brawddegau dau a thri gair? A yw weithiau'n cyfuno pedwar cysyniad allweddol?<br><br>Sylwch yr amrywiaeth o ddibenion sy'n ysgogi'r dysgwr i gyfathrebu. | Bydd y dysgwr yn defnyddio amrywiaeth o frawddegau dau a thri gair/arwydd neu symbol, yn ogystal â rhai patrymau mwy cymhleth sy'n cynnwys pedwar gair/arwydd neu symbol allweddol.<br><br>Bydd y dysgwr yn defnyddio iaith i geisio ac i ddarparu gwybodaeth. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| **Dweud/dangos i eraill yr hyn fydd yn digwydd nesaf gyda rhywfaint o gefnogaeth, ac yn gallu rhoi adroddiad syml o'r hyn sydd newydd ddigwydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn sefyllfa lle newidir o'r naill weithgaredd i'r llall. | Mae’r dysgwr yn dewis y symbol cywir ar gyfer y gweithgaredd nesaf ac yn dangos y symbol i eraill er mwyn dangos yr hyn fydd yn digwydd nesaf.<br><br>Yn ddigymell, mae’r dysgwr yn defnyddio dull syml o gyfathrebu i gyfleu bod rhywbeth newydd ddigwydd neu i ddweud wrtho'i hun fod rhywbeth ar ddigwydd.<br><br>Rhaid i'r dysgwr fod yn darparu gwybodaeth ar lefel sylfaenol, yn hytrach na gofyn am rywbeth. |

| **Cychwyn 'sgwrs' ac yn ailadrodd geiriau neu frawddegau os nad yw’n eu deall** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Sylwch ar y modd y bydd y dysgwr yn cyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. | Mae’r dysgwr (weithiau) yn cychwyn sgwrs yn rhagweithiol neu'n newid y testun i rywbeth sydd o ddiddordeb iddo ef. |
| Cymrwch arnoch i chi gamddeall yr hyn y mae'r dysgwr wedi'i ddweud. | Mae’r dysgwr yn defnyddio iaith i unioni camddealltwriaeth, *e.e. drwy ailadrodd yr hyn y mae wedi'i ddweud neu ymhelaethu*. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

<table>
<tr><td colspan="2">Gwrando ac yn ymateb i eraill mewn cyd-destunau cyfarwydd, gan ofyn cwestiynau er mwyn cael gwybodaeth syml/fanwl</td></tr>
<tr><td>Gweithgareddau asesu/awgrymiadau</td><td>Sylwch ar y canlynol</td></tr>
<tr><td>Yn ystod amser cylch, mae’r dysgwyr yn cymryd tro i adrodd newyddion.<br><br>Mae’r oedolyn i gymell, 'Beth ydych chi'n ei feddwl am newyddion, John?'. Mae’r oedolyn i annog, ‘Beth ddylem ni ofyn i John?’.</td><td>Mae’r dysgwr yn aros i wrando ar gyfraniad rhywun arall mewn trafodaeth neu sgwrs.<br><br>Mae’r dysgwr yn gwneud sylw ynghylch cyfraniad rhywun arall. Mae’r dysgwr yn gofyn y cwestiynau 'ble?', 'beth?' a 'pa?'.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr at y cam hwn)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mewn sefyllfa grŵp strwythuredig, e.e. wrth drafod anifeiliaid a'u cynefinoedd, rhowch gyfresi o luniau i'r dysgwyr sy'n dangos anifeiliaid a'u cynefinoedd, darparwch setiau o luniau i’r dysgwyr sy’n dangos anifeiliaid a’u cynefinoedd. Modelwch gwestiynau ar ffurf y canlynol, ‘Ble mae pysgodyn yn byw?’ neu ‘Beth sy'n byw mewn nyth?’ neu ‘Pa anifail sydd ag adenydd?’.<br><br>Pan fydd pob dysgwr wedi cael tro i ateb, gofynnwch i un o'r dysgwyr ofyn y cwestiynau. Yna pasiwch y rôl honno o amgylch y grŵp, fel bod pawb yn cael cyfle i ofyn cwestiwn ar ffurf sydd wedi'i modelu.</td></tr>
</table>

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

## Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
## Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| **Ymateb yn briodol i geisiadau syml sy'n cynnwys priodoleddau (*e.e. mawr, budr*), rhagenwau meddiannol (*e.e. fy, dy*) ac arddodiaid (*e.e. yn, ar, o dan*)** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| **Ar gyfer 'mawr' neu 'budr'**<br><br>Rhowch y pedwar eitem ganlynol o flaen y dysgwr:<br>- plât mawr, plât bach, cwpan mawr, cwpan bach<br>neu<br>- plât glân, plât budr, cwpan glân, cwpan budr.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwr 'Rho'r bocs bach i mi' neu 'Rho'r plât budr i mi' ac ati.<br><br>Rhowch yr eitemau yn ôl bob tro cyn gofyn eto, heb roi unrhyw awgrymiadau gweledol.<br><br>**Ar gyfer 'yn' 'ar' ac 'o dan'**<br><br>Gosodwch eitemau (a) ar y bwrdd yn union o flaen y dysgwr ac eitemau (b) ychydig ymhellach i ffwrdd.<br><br>Eitemau (a): losin, bricsen, allwedd.<br>Eitemau (b): bocs, cwpan.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwr 'Rho'r allwedd yn y cwpan' neu 'Rho'r losin o dan y bocs'. Rhowch yr eitemau yn ôl bob tro. | Mae'r dysgwr yn cyflwyno'r eitem briodol neu'n rhoi'r eitem yn y lle priodol yn unol â phob cyfarwyddyd. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd**
**Gweithgareddau asesu/awgrymiadau**

| **Gofyn am ragor o wybodaeth o fewn gweithgaredd strwythuredig ac yn ei chynnwys mewn ymateb newydd** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Mewn gweithgaredd fel technoleg bwyd neu fenter lle mae angen llunio rhestr siopa, trefnwch bethau fel bod y dysgwr yn gorfod gofyn pa eitemau sydd mewn stoc, ac yna dweud wrth rywun pa eitemau y mae angen eu prynu. | Mae'r dysgwr yn gofyn am wybodaeth, *e.e. 'Oes gennym ni wyau?*'.<br><br>Mae'r dysgwr yn gwrando ar yr ateb.<br><br>Mae'r dysgwr yn creu ateb newydd, *e.e. yn dweud 'Mae angen wyau'*. |
| **Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr at y cam hwn)** | |
| Defnyddiwch luniau o'r eitemau i helpu'r cof. Rhowch rolau cefnogol i ddysgwyr eraill. Er enghraifft, gallai un dysgwr ddewis lluniau o eitemau o bentwr a'u hychwanegu at restr, a gallai dysgwr arall chwilio am eitemau yn y cwpwrdd. | |

| **Defnyddio geiriau/arwyddion a brawddegau i amrywiaeth o ddibenion** | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Arsylwi a chofnodi dull y dysgwr o gyfathrebu'n fynegiannol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.<br><br>I ba ddiben(ion) y mae'n defnyddio geiriau/arwyddion/symbolau er mwyn, er enghraifft:<br>- cyfleu gwybodaeth benodol<br>- gwneud sylw<br>- mynegi barn<br>- cloriannu<br>- gofyn cwestiwn? | Mae'r dysgwr yn defnyddio'r geiriau/arwyddion i amrywiaeth o ddibenion er mwyn cyfleu ei ymateb i wahanol weithgareddau ar draws y cwricwlwm. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

# Ar drywydd llythrennedd – Llafaredd
# Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

| Canfod symbol/llun o eitem a ddymunir ac yn ei ychwanegu at frawddeg barod | |
|---|---|
| **Gweithgareddau asesu/awgrymiadau** | **Sylwch ar y canlynol** |
| Paratowch luniau neu symbolau a'u darparu mewn llyfr ‘ PECS’ neu ar feddalwedd cyfrifiadur neu gyfrifiadur tabled.<br><br>Mae'r lluniau neu'r symbolau'n cynnwys ‘Rydw i eisiau’ yn ogystal â'r eitemau a ffafrir.<br><br>(PECS Cyfnod 4) | Mae'r dysgwr yn dewis llun neu symbol sy'n cynrychioli ‘Rydw i eisiau’ o blith amrywiaeth o luniau neu symbolau, ac yn ei osod yn y lle cywir ar frawddeg barod. Wedyn, mae’n dewis llun neu symbol ar gyfer yr eitem a ffafrir ac yn ei osod yn y lle cywir ar y frawddeg barod. Mae’n rhoi'r frawddeg i bartner er mwyn cyfathrebu ag ef/hi.<br><br>**Neu**<br><br>Mae’n creu brawddeg sy'n cynnwys dau symbol ar gyfrifiadur neu gyfrifiadur tabled. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012